# Y Cyfarfod Llawn

Dyddiad y cyfarfod:
**Dydd Mawrth, 2 Mehefin 2015**

Amser y cyfarfod:
**13.30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Pleidleisiau a Thrafodion
(268)

**Datganiad y Dirprwy Lywydd**

Croesawodd y Dirprwy Lywydd Janet Haworth, yr aelod Ceidwadol newydd dros Ranbarth Gogledd Cymru Ac fe'i gwahoddodd i gyfarch y Siambr.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

Dechreuodd yr eitem am 13.32

Gofynnwyd y 9 cwestiwn cyntaf. Gwahoddodd y Dirprwy Lywydd arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Dechreuodd yr eitem am 14.20

### 3 Cynigion i ethol Aelodau i bwyllgorau

Dechreuodd yr eitem am 14.37

**NDM5774 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Dafydd Elis-Thomas (Plaid Cymru) yn aelod o'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn lle Simon Thomas (Plaid Cymru).

**NDM5775 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Altaf Hussain (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn lle Janet Finch Saunders (Ceidwadwyr).

**NDM5776 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.14, yn ethol Mohammad Asghar (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus yn lle William Graham (Ceidwadwyr).

**NDM5777 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Janet Haworth (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd.

**NDM5778 Rosemary Butler (Gorllewin Casnewydd)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 17.3, yn ethol Mohammad Asghar (Ceidwadwyr) yn aelod o'r Pwyllgor Menter a Busnes.

**Derbyniwyd y cynigion yn unol â Rheol Sefydlog 12.36**

## 4 Datganiad gan y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol: Y camau a gymerwyd mewn ymateb i'r adroddiad annibynnol ar Tawel Fan - TYNNWYD YN ÔL

**Cynnig am Ddadl Frys o dan Reol Sefydlog 12.69**

Dechreuodd yr eitem am 14.37

**Darren Millar (Gorllewin Clwyd): C**anfyddiadau'r ymchwiliad i ofal cleifion ar ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan.

Derbyniwyd y cynnig i gynnal dadl frys ar ganfyddiadau'r ymchwiliad i ofal cleifion ar ward Tawel Fan yn Ysbyty Glan Clwyd ym Modelwyddan, yn unol â Rheol Sefydlog 12.36. Dywedodd y Dirprwy Lywydd y câi'r ddadl ei chynnal yn y Cyfarfod Llawn yfory, dydd Mercher 3 Mehefin, yn syth ar ôl y cwestiynau llafar.

## 5 Datganiad gan y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus ar Blant a Phobl Ifanc yn Gyntaf: Cyflawni ein Hymrwymiad i Gyfiawnder Ieuenctid yn llwyddiannus

Dechreuodd yr eitem am 14.41

## 6 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Y diweddaraf am y Gronfa Buddsoddi i Arbed

Dechreuodd yr eitem am 15.04

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth: Adroddiad o Gynnydd Cronfeydd Strwythurol yr UE 2014-2020

Dechreuodd yr eitem am 15.36

## 8 Datganiad gan y Gweinidog Cymunedau a Threchu Tlodi: Cydlyniant Cymunedol - Cynnydd a Heriau

Dechreuodd yr eitem am 16.27

## 9 Y Rheoliadau Di-fwg (Cerbydau Preifat) 2015

Dechreuodd yr eitem am 17.01

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio.**

**NDM5767 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Rheoliadau Mangreoedd etc. Di-fwg (Cymru) (Diwygio) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mai 2015.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 46 | 0 | 1 | 47 |

**Derbyniwyd y Cynnig.**

**10 Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015**

Dechreuodd yr eitem am 17.18

**NDM5768 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o'r Gorchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Anghymhwyso) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 30 Ebrill 2015.

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

**11 Rheoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddiant Awdurdod Trwyddedu) (Cymru) 2015**

Dechreuodd yr eitem am 17.31

**Gohiriwyd y bleidlais ar y Cynnig o dan yr eitem hon tan y cyfnod pleidleisio**

**NDM5769 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru; yn unol â Rheol Sefydlog 27.5:

Yn cymeradwyo bod y fersiwn drafft o Reoliadau Rheoleiddio Tai Rhent Preifat (Gofynion Hyfforddi) (Cymru) 2015 yn cael ei lunio yn unol â'r fersiwn drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 5 Mai 2015.

Cynhaliwyd pleidlais ar y Cynnig:

| O blaid | Ymatal | Yn erbyn | Cyfanswm |
|---|---|---|---|
| 35 | 0 | 12 | 47 |

**Derbyniwyd y Cynnig.**

## 12 Cynnig o dan Reol Sefydlog 26.36 i amrywio trefn ystyried gwelliannau Cyfnod 3 Bil Cymwysterau Cymru

Dechreuodd yr eitem am 17.38

**NDM5770 Jane Hutt (Bro Morgannwg)**

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.36:

Yn cytuno i waredu'r adrannau a'r atodlenni i Fil Cymwysterau Cymru yng Nghyfnod 3 yn y drefn a ganlyn:

a) adran 2

b) atodlenni 1 a 2

c) adrannau 3 – 11

d) atodlen 3

e) adrannau 12 – 57

f) atodlen 4

g) adrannau 58 – 60

h) adran 1

i) Teitl Hir

**Derbyniwyd y Cynnig yn unol â Rheol Sefydlog 12.36.**

## 13 Cyfnod pleidleisio

Dechreuodd yr eitem am 17.39

Daeth y cyfarfod i ben am 17.40

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 3 Mehefin 2015**